

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**  
**7:30YH TACHWEDD 29<sup>AIN</sup> 2023**  
**CYNHALIWDYD YNG NGWYTHERIN**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Sara Thomas (ST)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION HYDREF 25<sup>AIN</sup> 2023 I'W GWIRIO**

Cynigwyd yn gywir gan MD ac eilwyd gan JR.

**4 MATERION YN CODI**

**4.1** Taenlen cyfrifon - Mae CWG wedi gwirio gyda'r cyfrifydd unwaith eto i sicrhau fod y daenlen a'r ffordd o gofnodi yn gywir ac yn bodloni'r awdit. Dywedodd Iona fod y gwaith yn drylwyr iawn ac yn dangos y costau bob mis. Mae hefyd yn monitro'r gyllideb trwy'r flwyddyn sydd yn unol â'r awdit. Dywedodd fod angen parhau gyda'r gwaith taclus sydd angen gyda sylw manwl ar ddiwedd y flwyddyn i wneud rhestr o unrhyw gostau nad oedd wedi mynd allan o'r banc erbyn diwedd y flwyddyn. DR yn pwysleisio'r pwysigrwydd bod cynghorwyr yn ymwybodol yn union pa daliadau sydd wedi mynd allan yn ystod y flwyddyn. MGD yn dweud y gellir ateb y broblem drwy gael colofn ychwanegol ar y daenlen i ddangos y costau sydd heb fynd allan eto a phawb yn cytuno i wneud hyn.

**4.2** Deffibrilydd - Yswiriant - CWG wedi cael ateb yn ôl gan y cwmni yswiriant BHIB yn dweud fod y deffibrilydd yn dod o dan gynnwys yr yswiriant hyd at £12,500 ac nid oes angen addasu'r polisi. Er hyn, gan fod y cabinet yn cael ei adael ar agor yna ni fyddai unrhyw niwed maleisus neu ladrad i'r uned yn cael ei gynnwys o dan y polisi. Mi siaradodd CWG â Tomos Hughes ynglŷn â hyn a dywedodd mai dyma sydd fel arfer yn digwydd a bod cynghorau eraill wedi derbyn hyn. Hefyd, nododd pe bai angen talu yswiriant unigol i deffibrilydd byddai yn costio tua £300 y flwyddyn ac felly dros gyfnod o 3 neu 4 blynedd nid oes llawer o werth i wneud hyn.

Fe siaradodd CWG hefyd â Tomos Hughes i drafod y grant ar gyfer y deffibrilydd newydd a rhai Gwytherin a Phandy Tudur sydd yn bodoli yn barod. Bydd Tomos yn mynd i Wytherin a Phandy Tudur i wirio'r unedau ac yna yn eu trosglwyddo i gyfiri CWG o'r 'Circuit' i gyd-fynd gydag un Llangernyw. O ran y deffibrilydd newydd dywedodd Tomos os yw'r trydan wedi ei ddatgysylltu yna mi wnaiff gostio tua £3000 - £4000 i'w ailgysylltu ac felly nid yw werth o. Opsiynau eraill yw ei roi ar du allan tafarn y stag neu ar bolyn lamp ond byddai angen gofyn caniatâd ar gyfer hyn. Byddai ei roi ar bolyn lamp yn costio tua £400 a gellir rhoi hyn i mewn yn y cais am grant. Cytunodd bawb i fwrw ymlaen gyda'r cais grant Clocaenog.

**4.3** Diweddariad arwyddion VAS - mae'r mapiau o'r lleoliadau newydd wedi eu gyrru i CWG gan Richard Roberts ac wedi eu gyrru ymlaen i bawb ar e-bost, roedd pawb yn cytuno gyda'r safleoedd. JR yn dweud fod y sefyllfa wedi gwaethygu o ran cyflymder ers newid y 20 m.y.a. AR yn dweud y gellir gofyn am grant tuag at y costau arwyddion VAS a chytunodd bawb i ychwanegu costau'r arwyddion i'r cais grant arian Clocaenog.

**4.5** Cynllun gweithredu Bioamrywiaeth - cafodd y cynllun ei ddanfôn i bawb ar e-bost gan CWG yn dilyn y drafodaeth yn yr is-bwyllgor diwethaf. Pawb yn cytuno gyda'r cynnwys ac i gael yr is-

bwyllgor nesaf am 7 y.h. cyn pwyllgor cyngor cymuned mis Ionawr.

**4.6** Prisiau am waith ar y mynwentydd - Dei Evans wedi dod yn ôl gyda phris o £385. CWG i atgoffa Kevin Roberts i gael pris ac Ann am ei gwrdd i ddangos y gwaith.

## **5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** Cais rhif 0/51193 Tan Y Ffordd, Llanrwst LL26 0NT

Cafwyd sylwadau lleol o ran poeni am lif yr afon, pryder o ran sŵn a rheolaeth cŵn gan na fydd neb ar y safle drwy'r amser a'r ffaith fod y cais ar gyfer bod ar agor am 12 mis o'r flwyddyn ond y byddai'n well cyfyngu hyn i 9 mis. Pawb yn cymeradwyo gyda'r sylwadau.

**5.2** Cais Rhif 0/51234 Pen Y Ffridd, Waterloo, Llangernyw LL22 8RH

MGD yn dweud i gymeradwyo ar gyfer cynnal a chadw'r goedwig a dim caniatâd cynllunio arall a phawb yn cytuno.

## **6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Dyddiadau Cyfarfodydd 2024 - gwnaethpwyd mân newidiadau ac yna fe'u cymeradwywyd.

**6.2** Cyfraniad cwpan/arian er cof am Emlyn, Llethr - ni chafwyd cyfarfod o bwyllgor Sioe Gwytherin yn dilyn y sioe ddiwethaf ac felly nid yw hyn wedi ei drafod eto.

## **7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Dŵr wrth ymyl Tan y Graig - adran briffyrdd wedi ei symud i'r adran llifogydd i ddelio. Ond, bydd angen gwneud cais am grant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Problem dwr Ty'n Pistyll - mae'r cyngor wedi dweud y bydden nhw wedi datrys y broblem erbyn diwedd yr wythnos. Mae Emyr hefyd wedi gwneud cais am arian i ail-wynebu wrth ymyl Bont Sylltu a hefyd cais am waith wrth ymyl yr Hen Ficerdy ond am gadarnhau yn union lle.

Palmant Fedwen Arian - AR wedi bod yno i weld ac am weld beth fydd Emyr yn ei ddweud.

Amgueddfa Syr Henry Jones - angen aelodau newydd o'r pwyllgor ac yn anffodus bydd yr amgueddfa yn gorfod cau os ddim yn ffeindio neb. Pasiwch unrhyw enwau ymlaen i AR os gwelwch yn dda. CWG i'w hysbysebu ar y wefan, hysbysfyrdau ac ar *facebook*.

AR wedi trefnu cyfarfod gyda John Davies o'r adran addysg a swyddog o'r adran ystadau a MGD fel Cadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol er mwyn darganfod pwy sydd yn berchen ar y darn o dir tu ôl i'r ysgol. DR gyda gwaith papur yn dangos ei fod yn perthyn i'r gymuned ac am ei rannu gyda AR.

EW - giât ffordd yn blocio ar ôl glaw mawr ac yn gorfod ei glirio a phrynu graean ar eu costau eu hunain o hyd (wedi e-bostio AR yn barod). AR yn dweud mai un peiriant clirio'r ffordd sydd yna gan y cyngor ac un gyrrwr wedi ei hyfforddi. Bydd cynllun newydd o ran rhywun wedi ei hyfforddi erbyn y flwyddyn newydd.

## **8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Pris gan Kevin ar gyfer llwybr Hafodunos - £475 + £95 T.A.W. = £570

Pris rhesymol iawn a phawb yn cytuno i fwrw ati gyda'r gwaith. CWG i roi cais am arian ar gyfer hwn i mewn i'r Cyngor.

**8.2** Llythyr gan D. Emrys Williams parthed carreg fedd i'r diweddar T. Hugh Williams (a drafodwyd mewn pwyllgor blaenorol) - wedi cael pris o £292.92 (sydd yn cynnwys T.A.W o £48.82) gan Gofgolofnau'r Dyffryn ac maent yn gofyn am gyfraniad o draean tuag at y garreg fedd felly swm o £97.64. DR yn poeni fod cyfrannu i'r achos hwn efallai yn creu cynsail a JR yn egluro fod ei wraig yn fyw ar ôl ef a tybed efallai nad oedd eisiau carreg fedd? MGD yn dweud

fod angen penderfynu beth yw polisi'r cyngor cymuned o ran hyn. Penderfynwyd i adael tan fis Ionawr a chael trafodaeth bellach bryd hynny.

**8.3 TAW** gan Iona - CWG wedi bod yn siarad eto gyda Iona y mis hwn ond dal heb dderbyn y taliad.

## **9 GOHEBIAETH**

**9.1** Cwrs Côt Ymddygiad gan Gyngor Conwy ar 25.1.24 (yn Saesneg) a 22.2.24 (gyda chyfieithu ar gael). Mae bron pawb angen gwneud hwn felly CWG i yrru'r manylion ymlaen i bawb dros e-bost.

**9.2** Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU Conwy - Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol - Mae'r gronfa ar agor.

**9.3** Wedi derbyn neges drwy'r wefan yn canmol y cyngor gan ddweud fod y bobl leol yn lwcus o'r cyngor cymuned ac yn hoffi fod y lluniau ar y wefan.

**9.4** Gweminar Un Llais Cymru ac IRPW - Wedi ei gynnal ddydd Llun Tachwedd 27<sup>ain</sup> 2023, cafodd y wybodaeth ei yrru dros e-bost i bawb a bu AV arno. Eglurodd fod hawl gan bobl i gael arian tuag at gostau o fod yn gynghorwr a'u bod wedi deud ar y gweminar i neb deimlo'n euog i'w dderbyn. Mae £156 y flwyddyn ar gael at gostau CWG hefyd ac nid oes angen talu treth arno ond byddai angen cytundeb gyda'r cyngor cymuned a CWG i wneud hyn. Hefyd, cafodd AV wybod fod angen cyfrannu at adroddiad blynyddol Un Llais erbyn 5.12.23 ond nad oedd nifer o'r cynghorau (gan gynnwys Cyngor Cymuned Llangernyw) wedi derbyn y wybodaeth ac felly bydd y dyddiad yn cael ei ymestyn. Penderfynwyd i lenwi hwn y mis nesaf.

**9.5** Rheoli Asbestos ar yr Ystâd Gyhoeddus - wedi ei yrru ar e-bost i bawb, ddim yn berthnasol yn y cyswllt hwn.

**9.6** Llythyr (ar e-bost) gan Gyngor Conwy i'w ystyried erbyn y praecept gan Elen Haf - wedi ei yrru i bawb ar e-bost.

**9.7** E-bost gan Urdd Gobaith Cymru yn gofyn am arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 - pawb yn cytuno i beidio cyfrannu.

**9.8** Llythyr gan Bwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru yng Nghonwy yn gofyn am arian i gynorthwyo gyda chostau'r Urdd yn y sir - pawb yn cytuno i beidio cyfrannu..

**9.9** Llythyr gan Ambiwlans Awyr Cymru wedi ei dderbyn yn diolch am y cyfraniad diweddar.

## **10 BILIAU**

**10.1** Costau stampiau CWG - £6

**10.2** Bil Enlli am gyfieithu mis Hydref - £90

**10.3** Gwefan Bro Cernyw - Cofrestru, cynhaliath a we-letya 2023-2024 gan Arfon Parry o Cradur.com - £167

**10.4** Bil gan Kevin ar gyfer gwaith ar lwybr rhif 43 (Pentre Wern i Dy'n y Caeau) - £400 + £80 T.A.W. = £480

**10.5** Dei Evans - £200

**10.6** Menter Bro Cernyw - cyfraniad o £500 - yn y praecept yn barod

**10.7** Sgipiau - £528

Cytunwyd i dalu'r uchod i gyd.

## **11 MATERION LLEOL**

AV - yn sôn fod angen pwyllgor y mynwentydd i fynd dros brisiau a rheolau ym mis Ionawr. Penderfynwyd i'w gynnal bythefnos cyn y pwyllgor cyngor cymuned ac felly ar y 17.1.24 yn Llangernyw am 7:30. CWG i archebu ystafell. Gofynnodd hefyd pryd aeth y cofnodion Saesneg ar gyfer y mis Medi i fyny ar y wefan a dywedodd CWG eu bod wedi mynd yn union yr un adeg a'r rhai Cymraeg sef ychydig ddyddiau ar ôl y pwyllgor diwethaf.

EW - wedi derbyn copi o lythyr sydd yn rhoi caniatâd i gŵn fod yn y fynwent sydd wedi ei yrru allan gan Cyngor Conwy.

DR - plant yr ardal wedi bod yn brysur yn plannu bylbiau yn y tybiau blodau a bydd llun yn y Gadlas. Bu Cadi a Casi hefyd o gwmpas yn casglu sbwriel, mae pawb yn ddiolchgar iddynt.

MD - wedi gosod y biniau bagiau baw cŵn.

## **12 CYFARFOD NESAF**

Rhagfyr 13<sup>eg</sup> 2023 ym Mhandy Tudur.  
Cyfarfod yn dod i ben am 9:20 y.h.  
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.